**Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James**

Mae'r Nadolig yn adeg i ddathlu, yn gyfle i greu atgofion arbennig gyda theulu a ffrindiau, yn gyfle i fyfyrio a bod yn ddiolchgar.

Mae gan y Rhyl lawer iawn i edrych ymlaen ato dros y flwyddyn i ddod wrth i'r ail-ddatblygu barhau.

Ond yng nghanol y dathlu, rhaid i ni gofio am y rhai llai ffodus. Mae 2017 wedi bod yn flwyddyn anodd i lawer a bydd rhai yn wynebu Nadolig gyda theimlad o dristwch ac unigrwydd. Mae'r Rhyl yn enwog am ei hysbryd cymunedol cryf a buaswn yn annog pob un ohonom i feddwl am ac estyn allan i'r sawl sy'n wynebu adeg anodd, nid yn unig dros y Nadolig ond trwy gydol y flwyddyn. Gall gair caredig, galwad ffôn neu gnoc ar y drws fynd yn bell iawn.

Wrth i 2017 dynnu at ei therfyn, hoffwn gydnabod y sawl sy'n gwneud cymaint i helpu eraill. Fel yr ydym wedi gweld lawer gwaith, mae ein holl wasanaethau argyfwng a chymorth yn gwneud gwaith gwych a thosturiol dan amodau anodd, yn gofalu amdanom 365 diwrnod y flwyddyn.

Bydd rhai, gan gynnwys ein lluoedd arfog, yn treulio'r Nadolig ar wahân i'w hanwyliaid, a hoffwn ddiolch iddyn nhw am ein cadw ni i gyd yn ddiogel a bod yno pan fyddwn eu hangen.

Wrth wneud hynny, hoffwn hefyd dalu teyrnged i fyddin o wirfoddolwyr, codwyr arian a grwpiau cymunedol y Rhyl sy'n gwneud cymaint, yn dawel ac yn ddi-ffwdan, i helpu'r rhai llai ffodus.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi, bobl y Rhyl, am eich cefnogaeth barhaus. Ar ran Cyngor Tref y Rhyl, dymunaf Nadolig hapus ac iach i chi a'ch teulu, a phob dymuniad da ar gyfer 2018.